# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 7 MAWRTH 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | D W Cole |
| A M Cook | E T Kirchner | M Thomas |
| D W W Thomas | L J Tyler-Lloyd | T M White |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd N J Davies

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M H Jones a/ac P B Smith

66 **MR AERON KIRCZEY.**

Dywedodd y Cadeirydd mai dyma gyfarfod olaf Mr Kirczey cyn iddo ymddeol ar ôl 40 mlynedd o wasanaeth llywodraeth leol . Dywedodd fod Aeron wedi bod yn Ymgynghorydd Priffyrdd ar gyfer y pwyllgor am flynyddoedd lawer, a rhoddodd hanes cryno cyflogaeth Aeron.

Diolchwyd i Aeron am ei wasanaeth gan y Cadeirydd, yr Aelodau a'r Swyddogion, a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

67 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

68 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2017 yn gofnod cywir.

69 **EITEMAU I'W GOHIRIO / TYNNU'N ÔL.**

Dim.

70 **HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS - GORCHMYNION CREU A DILEU YM MHENNARD**

Cyflwynodd Chris Dale, Arweinydd Tîm Mynediad i Gefn Gwlad (Hawliau Tramwy) adroddiad a oedd yn amlinellu'r hanes cefndir a'r wybodaeth am y materion sy'n ymwneud â chreu a diddymu cyfres o orchmynion ar gyfer llwybrau troed a llwybrau ceffyl ym Mhennard yn dilyn gwrthwynebiadau.

Amlinellwyd yr opsiynau sydd ar gael i'r awdurdod i ddatblygu'r mater a manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** tynnu'r gorchmynion presennol yn ôl a chyhoeddi gorchmynion diwygiedig.

71 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO O DAN DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**PENDERFYNWYD:**

(1) **GWRTHOD** y cais cynllunio y cyfeirir ato isod am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad:

#(Eitem 1) Cais Cynllunio 2015/2357 – 44 Heol Sway, Treforys

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

(2) **CYMERADWYO'R** cais cynllunio y cyfeirir ato isod am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad:

#(Eitem 2) Cais Cynllunio 2017/0077/FUL – 111 Heol Walter, Abertawe

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd N J Davies (aelod lleol), a siaradodd yn erbyn y cais.

72 **CYFEIRNOD CAIS CYNLLUNIO: 2016/1316, CYFEIRNOD APÊL CYNLLUNIO: APP/B6855/A/16/3161603 - 105 RHYDDINGS TERRACE, BRYNMILL, ABERTAWE**

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn amlinellu penderfyniad yr Arolygydd Cynllunio'n dilyn apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor i wrthod cais, yn groes i argymhelliad y swyddog, yn ymwneud â newid defnydd i HMO yn 105 Teras Rhyddings.

Amlinellwyd sylwadau'r arolygydd a'r rhesymau dros ei benderfyniad a manylwyd arnynt.

Trafododd aelodau oblygiadau'r penderfyniad ar geisiadau HMO yn y dyfodol ac ar y CCA sy'n dod i'r amlwg.

**PENDERFYNWYD** nodi'r penderfyniad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.44 pm

**CADEIRYDD**